national water safety forum

water safety England
water safety Scotland
diogelwch dŵr Cymru water safety Wales
water safety Northern Ireland

Trochiadau anffurfiol a nofio Nadolig

Canllawiau i sefydliadau a threfnwyr digwyddiadau



Photo credit: RNLI

Mae trochiadau cymunedol, nofio Nadolig a chyfarfodydd anffurfiol eraill ar y dŵr agored yn dod yn fwyfwy poblogaidd ledled y Deyrnas Unedig. Er y gall y digwyddiadau hyn ddod â phobl at ei gilydd a hybu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored, maen nhw hefyd yn codi ystyriaethau pwysig ynghylch diogelwch, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

Mae'r Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (NWSF) yn annog unrhyw un sy'n hybu, yn cydlynu, yn trefnu neu'n arwain digwyddiad sy'n seiliedig ar ddŵr i ymgyfarwyddo â chanllawiau diogelwch digwyddiadau perthnasol, gan gynnwys y Canllaw Porffor, sef canllaw cydnabyddedig y Deyrnas Unedig ar iechyd, diogelwch a lles mewn digwyddiadau. Mae'r canllawiau yma yn tynnu sylw at ystyriaethau diogelwch allweddol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â digwyddiadau anffurfiol sy'n seiliedig ar ddŵr ac yn tynnu sylw at ganllawiau ac arferion da cydnabyddedig mewn diogelwch digwyddiadau.

Dylai digwyddiadau sy'n digwydd yn y dŵr, ar y dŵr, neu ger y dŵr fod â chynlluniau diogelwch priodol, asesiadau risg, a threfniadau argyfwng ar waith. Dylai hyn gynnwys goruchwyliaeth gan berson addas gymwys sy'n gyfrifol am ddiogelwch dŵr yn y digwyddiad. Mae digwyddiadau sydd wedi'u trefnu'n dda yn anelu at darparu amgylchedd diogel i gyfranogwyr ac yn helpu i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr yn cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol. Lle bo'n briodol, dylai'r trefnwyr ystyried hefyd a oes asesiadau diogelwch dŵr ar gael yn barod, neu a oes angen cyngor arbenigol er mwyn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd dŵr.

Dylai sefydliadau sy'n gweithredu mewn digwyddiad, yn ei ymyl neu'n gyfagos iddo fod yn ymwybodol y gall presenoldeb personél wedi'u brandio (gan gynnwys codwyr arian), cerbydau, cychod, offer achub, achubwyr bywyd neu asedau diogelwch dŵr eraill greu'r argraff anfwriadol bod y digwyddiad yn cael ei gefnogi, ei gymeradwyo, ei oruchwylio neu ei reoli gan y sefydliad hwnnw. Gall y cysylltiad tybiedig yma arwain y cyfranogwyr i gymryd yn ganiataol fod y digwyddiad wedi'i asesu'n ffurfiol a bod mesurau diogelwch ychwanegol ar waith, hyd yn oed pan nad yw hyn yn wir. Gan hynny, dylai sefydliadau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu rôl nhw, lefel eu cyfranogiad a'u cyfrifoldebau yn cael eu deall yn glir gan y trefnwyr a'r cyfranogwyr.

I gael gwybodaeth am asesu a rheoli risgiau mewn safleoedd dŵr mewndirol ac arfordirol, gan gynnwys canllawiau ar asesiadau risg diogelwch dŵr, gweler canllawiau RoSPA ar reoli diogelwch o amgylch dyfroedd mewndirol ac arfordirol.

I gael rhagor o wybodaeth am gynllunio a rheoli diogelwch dŵr mewn digwyddiadau, cysylltwch â sefydliad cydnabyddedig sydd ag arbenigedd mewn rheoli digwyddiadau a diogelwch dŵr, neu cysylltwch â'r NWSF.

Rhagor o wybodaeth: y Canllaw Porffor

Dylai'r trefnwyr sicrhau bod gan y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r digwyddiad yr wybodaeth, y sgiliau, yr hyfforddiant, yr offer a'r profiad priodol. Gall hyn gynnwys hyfforddiant diogelwch dŵr arbenigol gan ddarparwyr cydnabyddedig fel Surf Lifesaving Great Britain (SLSGB), y Gymdeithas Achub Bywyd Frenhinol (RLSS UK) neu Gwobrau Hyfforddiant Diogelwch (STA).